**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Nick Bennett,
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

17 Ebrill 2018

Annwyl Nick,

Y BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)

Rwy'n falch bod y Cynulliad wedi derbyn egwyddorion cyffredinol y Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ar 21 Mawrth 2018. Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i chi gael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y Bil.

Mae'r Bil bellach wedi symud ymlaen i Gyfnod 2 sy'n golygu y gall Aelodau'r Cynulliad gyflwyno gwelliannau i'r Bil. Fodd bynnag, gan nad oes penderfyniad ariannol wedi'i gyflwyno eto na'i dderbyn gan y Cynulliad (proses y mae'n rhaid i'r Llywodraeth ei chychwyn), ni all y pwyllgorau gynnal trafodion i drafod a phleidleisio ar welliannau eto.

Ym mis Medi 2017, ystyriodd y Pwyllgor Busnes yr amserlen ar gyfer y Bil a chytunodd ar 18 Mai 2018 fel terfyn amser dros dro ar gyfer cwblhau Cyfnod 2. Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes yn nodi y gallai fod angen ymestyn y terfyn amser.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i drefnu cyfarfod i drafod sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i symud y Bil ymlaen yn foddhaol, gyda'r bwriad o sefydlu pa waith pellach sydd ei angen ar y Bil i alluogi'r Llywodraeth i gyflwyno penderfyniad ariannol.

Efallai y byddwch yn ymwybodol i mi dderbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ystod y

ddadl yng Nghyfnod 1. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol ac rwy'n falch bod eich swyddogion yn helpu drwy ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol.

Bydd Clerc y Pwyllgor sy'n arwain ar y Bil hwn yn cysylltu â chi pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Leanne Hatcher (Leanne.hatcher@cynulliad.cymru).

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*